**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 25 Hydref 2023 am 5.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd B Stephens | Y Cynghorydd L Addiscott |
| Y Cynghorydd M Ashford | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd Bonetto |
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd J Cook |
| Y Cynghorydd R Davis | Y Cynghorydd S J Davies |
| Y Cynghorydd V Dunn | Y Cynghorydd E L Dunning |
| Y Cynghorydd J Edwards | Y Cynghorydd S Emanuel |
| Y Cynghorydd L Ellis | Y Cynghorydd B Harries |
| Y Cynghorydd S Hickman | Y Cynghorydd G O Jones |
| Y Cynghorydd W Hughes | Y Cynghorydd R Lewis |
| Y Cynghorydd G Jones | Y Cynghorydd C Leyshon |
| Y Cynghorydd W Jones | Y Cynghorydd M Maohoub |
| Y Cynghorydd W Lewis | Y Cynghorydd A Morgan |
| Y Cynghorydd C Lisles | Y Cynghorydd N H Morgan |
| Y Cynghorydd C Middle | Y Cynghorydd W Owen |
| Y Cynghorydd L A Tomkinson | Y Cynghorydd M Norris |
| Y Cynghorydd W Treeby | Y Cynghorydd S Rees |
| Y Cynghorydd G L Warren | Y Cynghorydd J Turner |
| Y Cynghorydd R Williams | Y Cynghorydd T Williams |

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd J Barton | Y Cynghorydd P Binning |
| Y Cynghorydd D R Bevan | Y Cynghorydd A Dennis |
| YCynghorydd A S Fox | Y Cynghorydd J Elliott |
| Y Cynghorydd R Evans | Y Cynghorydd S Evans |
| Y Cynghorydd D Grehan | Y Cynghorydd D Evans |
| Y Cynghorydd H Gronow | Y Cynghorydd G Hopkins |
| Y Cynghorydd D Owen-Jones | Y Cynghorydd K Johnson |
| Y Cynghorydd K Morgan | Y Cynghorydd S Morgans |
| Y Cynghorydd D Parkin | Y Cynghorydd A Rogers |
| Y Cynghorydd C Preedy | Y Cynghorydd G Stacey |
| Y Cynghorydd K Webb | Y Cynghorydd A Roberts |
| Y Cynghorydd S Trask | Y Cynghorydd D Williams |
| Y Cynghorydd G E Williams | Y Cynghorydd D Wood |
| Y Cynghorydd R Yeo | |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwasanaethau Cyllid a Gwella

## Ymddiheuriadu am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Evans | Y Cynghorydd S Bradwick |
| Y Cynghorydd A J Ellis | Y Cynghorydd P Evans |
| Y Cynghorydd G Holmes | Y Cynghorydd S Powderhill |
| Y Cynghorydd M Powell | Y Cynghorydd J Smith |
| Y Cynghorydd M Webber | |

**51 Croeso**

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i gyfarfod hybrid y Cyngor.

**52 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**53 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023 yn rhai cywir.

(**Nodwch:** Gofynnodd y Cynghorydd K Morgan gwestiwn am gofnod rhif. 49 (i) a nodir ar dudalen 17, a rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ymateb iddo)

**54 Cyhoeddiadau**

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

- Arweiniodd y Llywydd y Cyngor mewn Munud o dawelwch er cof am yr holl Israeliaid a'r Palestiniaid a gollodd eu bywydau yn y digwyddiadau trasig yn y Dwyrain Canol, ac er cof am y 116 o blant a 28 o oedolion a fu farw yn nhrychineb Aberfan ar 21 Hydref 1966.

- Roedd y Llywydd, ar ran y Cyngor, yn dymuno estyn ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Maureen Webber a'r Cynghorydd Amanda Ellis am wellhad buan, gan obeithio y byddan nhw'n dychwelyd i'w swyddi yn fuan.

- Atgoffodd y Llywydd y Cyngor mai hwn fyddai cyfarfod hybrid olaf y

Cyngor i'w gynnal yn Siambr y Cyngor yng Nghwm Clydach, sef Pencadlys y Cyngor ers ugain mlynedd. Ychwanegodd y bydd cyfarfod hybrid nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn y swyddfeydd newydd yn Llys Cadwyn, Pontypridd.

**55 Datganiadau**

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau, y Cynghorydd B Harris, ddatganiad mewn perthynas â chau UK Windows and Doors Group Ltd, Griffin Windows gynt. Aeth y cwmni i ddwylo'r gweinyddwyr gan arwain at gyfnod pryderus iawn i'r gweithwyr a'u teuluoedd.

Ychwanegodd fod cefnogaeth y Cyngor, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhagorol. Roedd yr achlysur gwybodaeth a drefnwyd mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar 18 Hydref, ac a gynhaliwyd yng Nghanolfan Chwaraeon Ystrad, wedi denu 304 o weithwyr UK Windows and Doors. Roedd yr achlysur yn drefnus iawn o ystyried mai dim ond pythefnos o rybudd a roddwyd, ac estynnodd y Cynghorydd Harris ei ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â'r trefniadau. Dywedodd fod adborth gan y rhai a ddaeth i'r achlysur wedi bod yn wych, gan nodi'r proffesiynoldeb a'r cyngor a chymorth pwrpasol gan staff y Cyngor ac eraill. Roedd nifer o bobl wedi sylwi ar hyn ac yn ddiolchgar amdano.

I gloi, dywedodd y Cynghorydd Harris ei fod wedi cyfarfod â busnes lleol sydd wedi dangos diddordeb mewn ehangu ei weithrediad, gyda'r posibilrwydd o gyflogi mwy o'r staff anffodus sydd dal yn ddi-waith, gan gynnig gobaith iddyn nhw ar gyfer y dyfodol.

**56 Cwestiynau gan yr Aelodau**

1. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Wood i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

*'Cysylltodd aelod o'r gwasanaethau brys â mi yn ddiweddar sy'n hynod bryderus am y oblemau traffig a'r oedi i Bontypridd o gyfeiriad Cwm Rhondda bob bore. Mae hyn edi golygu ei bod hi'n cymryd rhwng 90 munud neu hyd yn oed 2 awr iddo gyrraedd y vaith am 8am, pan fydd wedyn yn cael trafferth dod o hyd i le parcio, sydd wedi golygu ei d yn hwyr i'r gwaith. Hoffai wybod a oes cynllun gyda Chyngor RhCT i liniaru'r oblemau traffig parhaus os gwelwch yn dda?"*

**Ymateb gan y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Ymatebodd yr Arweinydd drwy ddweud bod Adran Briffyrdd y Cyngor yn parhau i fuddsoddi mewn cynlluniau trafnidiaeth strategol integredig trosfwaol, gyda'r bwriad o wella'r rhwydwaith ledled Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r problemau traffig a'r oedi i gyfeiriad Pontypridd o Gwm Rhondda.

Ychwanegodd y Cynghorydd Morgan y byddai gweithio ochr yn ochr â Metro De Cymru yn rhoi hwb i ddarpariaethau trafnidiaeth cynaliadwy er mwyn lleihau traffigar

y ffyrdd trwy ddarparu opsiynau amgen rheolaidd a dibynadwy. Bydd y Metro yn arwain
at 24 trên yr awr yn teithio drwy Bontypridd, a fydd yn golygu bod modd teithio'n gyflymach ar y trên, gan arwain at lai o dagfeydd ym Mhontypridd ac yn enwedig ar yr A470. Mae cryn dipyn o waith adeiladu, peirianneg ac isadeiledd i'w wneud i uwchraddio'r rhwydwaith rheilffyrdd, ac mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar amseroedd teithio, a fydd yn cael eu cwtogi ar ôl cwblhau'r gwaith.

Dywedodd y Cynghorydd Morgan fod y Cyngor yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru ar ddatblygu Cyfnewidfa'r Porth er mwyn gwella bysiau a threnau. Bydd yr Hwb Trafnidiaeth yn darparu dewis amgen deniadol i'r rheiny sydd fel arfer yn defnyddio cerbydau preifat. Cyfeiriodd yr Arweinydd at y tocynnau sy'n gweithio ar bob dull teithio, sy'n rhywbeth y mae'r Cyngor yn awyddus i'w gyflawni. Yn ogystal â'r cyfleusterau Parcio a Theithio yn Abercynon a'r Porth, soniodd yr Arweinydd y byddai cyhoeddiad yn cael ei wneud yn fuan ynghylch prosiect Parcio a Theithio ar gyfer Treorci, a fyddai'n helpu gyda thagfeydd traffig.

Eglurodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn ystyried nifer o opsiynau i leddfu'r tagfeydd ar y ffyrdd, a bod modd i ddatrysiadau syml fel synwyryddion ar Groesfannau Pâl wneud gwahaniaeth.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Wood:**

"Gyda'r Eisteddfod yn dod i Bontypridd y flwyddyn nesaf a'r angen i annog pobl ledled Rhondda Cynon Taf a thu hwnt i deithio i'r achlysur, sut ydych chi'n defnyddio Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd, sy'n cael ei thrafod yn y cyfarfod heddiw, i sicrhau bod trigolion yn cael dweud eu dweud o ran unrhyw fesurau lliniaru traffig a gwaith isadeiledd ym Mhontypridd?"

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd na fydd unrhyw reswm i yrru i Bontypridd i fynychu'r Eisteddfod gan y bydd cyfleusterau Parcio a Theithio da, gyda bysiau gwennol rheolaidd i Barc Ynysangharad. Ychwanegodd y byddai 24 o drenau'n rhedeg trwy Bontypridd bob awr, a gyda chysylltiadau da i reilffyrdd y Rhondda, Aberdâr a Merthyr, bydd hyn yn lleddfu'r angen i yrru i'r achlysur. Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor hefyd wrthi'n dod o hyd i leoliad ar gyfer y maes carafanau ar gyfer yr achlysur.

Aeth yr Arweinydd ati i gydnabod bod traffig lleol ym Mhontypridd dan bwysau ar hyn o bryd oherwydd cau'r Bont Wen, sy'n arwain at dagfeydd ar hyd Heol Berw. Ychwanegodd nad yw'r synwyryddion yn gallu nodi'r traffig ychwanegol yn ystod y cyfnod pan fydd y ciwiau statig ger y goleuadau traffig. Sicrhaodd yr Aelod lleol y byddai'n fwy na pharod i ymgysylltu â thrigolion a busnesau lleol i sicrhau bod yr Eisteddfod yn achlysur llwyddiannus.

2. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol T Williams i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

*"A oes modd i'r Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynghorwyr am Gronfa Gymunedol y Gronfa Ffyniant Gyffredin a grantiau Trydydd Sector eraill?"*

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan OBE:**

Darparodd yr Arweinydd y wybodaeth ganlynol mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin – Grantiau Cymunedol CBSRhCT (o Ebrill 2022 i Fedi 2023). Nododd fod 121 o sefydliadau wedi derbyn grantiau gwerth cyfalaf o £183,262 a gwerth refeniw o £1,746,651. Ychwanegodd fod dyraniad pellach wedi'i wneud ar gyfer 2024-25, a bod
31 o sefydliadau yn cael budd o grantiau gwerth cyfalaf o £45,500 a gwerth refeniw o £814,831.

Ychwanegodd yr Arweinydd y byddai rhagor o fanylion am y trefniadau grant terfynol ar gyfer 2024-25 yn cael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2024. Mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin - Grantiau Micro Cymunedol Cyngor Rhondda Cynon Taf, dywedodd yr Arweinydd fod grantiau o hyd at £1,000 ar gael i'r rhai sy'n darparu gweithgareddau cymunedol/cymorth bwyd i breswylwyr ac mae 92 o sefydliadau wedi cael grantiau gwerth £85,714.

O ran y Grant Rhwydwaith Cymdogaeth, mae dyfarniad o hyd at £1,000 ar gael ar gyfer gweithgareddau cymunedol a hyd yma, mae 69 o sefydliadau wedi derbyn cyfanswm gwerth £49,046. Does dim modd cyflwyno rhagor o geisiadau ar hyn o bryd. Ychwanegodd yr Arweinydd fod dyfarniadau o hyd at £1000 ar gael ar gyfer cymorth uniongyrchol o ran bwyd i drigolion.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod tri sefydliad ar ddeg wedi derbyn cyfanswm gwerth o £12,534 mewn perthynas â'r Grant Cymorth Bwyd, sydd ar hyn o bryd yn derbyn ceisiadau gan Grwpiau Cymuned sy'n darparu bwyd i'w cymunedau. Parhaodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Grant Urddas Mislif yn y Gymuned lle dyfarnwyd cynhyrchion gwerth £30,065 i 31 o sefydliadau cymunedol. Dywedodd yr Arweinydd fod nifer cyfyngedig o fwndeli cynnyrch yn dal i fod ar gael tan fis Mawrth 2024.

Eglurodd yr Arweinydd fod hyd at £2,000 ar gael ar gyfer y Canolfannau Croeso yn ystod y Gaeaf/Cronfa Caledi'r Gaeaf, ond bod y cyfnod ymgeisio yn cau ddydd Gwener 10 Tachwedd 2023. Cysylltwyd â'r rhai a ymunodd â'r cynllun y llynedd drwy'r Rhwydwaith Cymdogaeth.

I gloi, dywedodd yr Arweinydd y bydd cynigion uniongyrchol o £540.00 yn mynd i 238 o sefydliadau cymuned sy'n darparu o leiaf un gweithgaredd cymunedol, megis boreau coffi, Banciau Bwyd, Bingo ac eraill sy'n hysbys i'r Rhwydweithiau Cymdogaeth.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

3. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Bonetto i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

*"A oes modd i'r Arweinydd wneud datganiad ar y Strategaeth a Chynllun Gweithredu Lleol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd?"*

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod y Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a'r Cynllun Gweithredu wedi'u trafod gan y Cabinet yn ddiweddar, nododd fod polisi allweddol i ategu ein buddsoddiad mawr yn y maes yma. Mae'r Strategaeth yn ymdrin â'r perygl llifogydd posibl o ffynonellau lleol, sy'n cynnwys cyrsiau dŵr cyffredin, dŵr ffo wyneb a dŵr daear. Yn rhinwedd ei swydd yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, mae'n ofynnol i'r Cyngor fonitro a diwygio'r Strategaeth i sicrhau ei bod yn cyd-fynd ag unrhyw bolisi cenedlaethol neu newidiadau i'r polisi cenedlaethol.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod y Cabinet wedi trafod fersiwn ddrafft o'r Strategaeth ar 17 Gorffennaf, ac wedi cytuno i'r swyddogion gynnal ymgynghoriad statudol 6 wythnos rhwng 21 Awst – 2 Hydref 2023. Esboniodd fod y Swyddogion wrthi'n adolygu'r ymatebion a'r meysydd lle gellid gwella'r strategaeth, ochr yn ochr â llunio adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar faterion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant ar 22 Tachwedd 2023. Yn dilyn adolygiad o adborth y Pwyllgor Craffu, bydd Swyddogion yn cwblhau'r strategaeth ac yn ei chyflwyno i'r Cabinet ym mis Ionawr 2024 i'w chymeradwyo.

**Cwestiwn Ategol gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J Bonetto:**

"Fel y gwyddoch, cafodd fy ward ei tharo gan lifogydd afonydd, a yw'r Cyngor yn ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch llifogydd afonydd?"

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod RhCT wedi dioddef llifogydd afonydd sylweddol ym mhob rhan o'r fwrdeistref sirol yn ystod Storm Dennis ac yn dilyn hynny mae afonydd Rhondda, Cynon a Thaf wedi bod yn destun astudiaethau dalgylch a ddatblygwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn dilyn digwyddiadau Storm Dennis sefydlwyd Bwrdd Llifogydd sy'n parhau i gyfarfod bob 6 wythnos, ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru ac uwch swyddogion y Cyngor.

Dywedodd yr Arweinydd fod astudiaethau pen desg a gwaith modelu wedi'u cynnal gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac er bod hon yn broses hir, bu cyfres o drafodaethau a chyfarfodydd hefyd gyda Gweinidogion o Lywodraeth Cymru megis Julie James AS. Roedd yr Arweinydd yn rhagweld y bydd gwelliannau sylweddol erbyn yr haf ond i'r rhai mewn ardaloedd na ellir eu diogelu, bydd yn bwysig gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a thrigolion lleol i'w helpu i ddiogelu eu heiddo gyda drysau llifogydd, llifddorau, gorchuddion awyrell frics ac opsiynau eraill nes bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cwblhau'r astudiaethau.

4. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Middle i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

*"Pa gynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud o ran cyflawni ei ymrwymiad i fod yn garbon niwtral erbyn 2030?"*

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan OBE:**

Ymatebodd yr Arweinydd drwy nodi bod y Cyngor yn gwneud cynnydd da er ei fod yn heriol oherwydd y costau sy'n gysylltiedig â datgarboneiddio ond mae'r Cyngor yn arbed mwy na 6,000 $tCO_2$ drwy fuddsoddi bron i £13 miliwn ers i'r rhaglen ddechrau (2010).

Dywedodd fod nifer o strategaethau, cynlluniau gweithredu a phrosiectau ar waith i helpu i ysgogi'r camau gweithredu ac i gyflawni uchelgeisiau'r Cyngor i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae mentrau'n cynnwys gosod paneli Solar, goleuadau LED, Uwchraddio Boeleri a Mesurau Rheoli Gwresogi ac mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud arbedion ariannol sylweddol yn ystod y cyfnod yma.
Dywedodd yr Arweinydd fod gan y Cyngor bellach dros 120 o systemau PV wedi'u gosod ar ei adeiladau, sydd gyda'i gilydd yn cynhyrchu dros 1.4 MWh o drydan adnewyddadwy bob blwyddyn. Mae'r Cyngor hefyd yn elwa o dros £1 miliwn mewn taliadau Tariff Cyflenwi Trydan a dderbyniwyd hyd yma.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y Cyngor yn symud ymlaen gyda dyluniad prosiect cynhyrchu ynni, gan gynnwys fferm solar ar y tir, ac ychwanegodd fod adroddiad cynnydd i'w gyflwyno i'r Cabinet yn fuan. Soniodd yr Arweinydd hefyd am brosiectau hydro ar safleoedd hyfyw ar draws y fwrdeistref sirol. Cyfeiriodd yr Arweinydd at gyflwyno bron i 100 o gilfachau gwefru cerbydau trydan gweithredol ledled RhCT, yn ogystal â chyflwyno 25 o geir Batri Trydan a Cherbydau Nwyddau Ysgafn i fflyd y Cyngor. Mae prosiectau eraill yn cynnwys prosiect Ffynnon Dwym Ffynnon Taf, a aeth yn fyw y llynedd, lle mae'r ysgol a'r pafiliwn cyfagos yn elwa ar lai o allyriadau carbon i wresogi'r adeiladau. I gloi dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wrthi'n cyfrifo cost y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Datgarboneiddio a llawer o waith arall sy'n digwydd yn y cefndir.

**Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Middle:**

“Sut mae modd i'r Cynghorwyr gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiectau hyn?”

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi lansio diweddariadau drwy ei ddangosfwrdd Ôl Troed Carbon sy'n galluogi'r Aelodau i olrhain y cynnydd. Ailadroddodd yr Arweinydd yr heriau sydd i ddod i'r Cyngor o ran bwrw'i dargedau a'i ymrwymiadau erbyn 2030, a'r angen i wneud arbedion mwy a gweithio'n gyflymach ond cynigiodd fod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Llawn yn y dyfodol a fydd yn nodi'r llwybrau yn y blynyddoedd i ddod, y cynlluniau y gellir eu cyflawni o fewn yr amserlenni a'r costau cysylltiedig.

**5. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Emanuel i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:**

*"Pa gymorth sydd ar gael i'r cannoedd o weithwyr a gollodd eu swyddi yn ddiweddar yn dilyn cau UK Windows and Doors?"*

**Ymateb gan y Cynghorydd A. Morgan OBE:**

Canmolodd yr Arweinydd staff y Cyngor sy'n gweithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a LIC, a chyfeiriodd at yr achlysur a gynhaliwyd mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar 18 Hydref yng Nghanolfan Chwaraeon Ystrad, gyda 304 o weithwyr Windows and Doors UK yn bresennol. Cynigiodd y gellid cynnal achlysur tebyg cyn y Nadolig i ystyried unrhyw fylchau sydd angen eu llenwi.

Cafodd yr achlysur ei hyrwyddo'n dda, ac roedd modd i'r rheiny a oedd yn bresennol gael cymorth gyda'u CV a'i drosglwyddo i gyflogwyr a oedd yn bresennol. Mae nifer o gwmnïau wedi cysylltu'n rhagweithiol â'r Cyngor i gynnig swyddi i ddarpar ymgeiswyr. Roedd yr Arweinydd o'r farn y dylai gwaith dilynol wedi'i dargedu ymhellach gael ei wneud i sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael heb gyflogaeth.

**Daeth yr amser a neilltuwyd i ben felly nid oedd cwestiwn ategol.**

## 57 Rhaglen Waith Y Cyngor 2023-24

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod bod dim newidiadau i raglen waith y Cyngor am y cyfnod ac fel y nodwyd yn flaenorol, cadarnhawyd mai hwn fyddai cyfarfod hybrid olaf y Cyngor llawn.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ddiben yr adroddiad gwybodaeth amgaeedig a oedd yn rhoi diweddariad i'r Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 14 Mehefin 2023, yn sefyll yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Trask a K Johnson (Unigrwydd ac Arwahanrwydd). Mae'r ymateb gan Lywodraeth Cymru wedi cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol ar wefan y Cyngor, yn unol â'r hyn y cytunwyd arno gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2023.

## 58 GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cyllid a Gwella adroddi
Dirprwy Brif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyfadran, Gwasanaethau Cyllid, Digidol
Flaen, ei adroddiad mewn perthynas â gostyngiadau Treth y Cyngor - Dosbarth F
o Anheddau. Dywedodd fod yr adroddiad yn bodloni'r gofyniad i'r Cyngor gadarnh
flynyddol y defnydd o ostyngiadau ar gyfer dosbarthiadau o anheddau, sef ail gar
gwag hirdymor. Mae'r adroddiad hefyd yn cadarnhau parhad "premiwm" Treth y C
anheddau gwag hirdymor yn ogystal â chyflwyno'r "premiwm" ar gyfer anheddau
Dosbarth B sy'n cael eu disgrifio fel ail gartrefi o 1 Ebrill 2024.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth nad yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn dyfarnu
i swm llawn Treth y Cyngor sy'n daladwy mewn perthynas ag ail gartrefi. Nid yw y
dyfarnu unrhyw ostyngiad mewn perthynas ag eiddo gwag y tu hwnt i'r cyfnod eit
sef 6 mis.

Roedd yr adroddiad yn cynnig bod y Cyngor yn cytuno i barhad y trefniadau yma
â'r gostyngiadau, sef nad oes unrhyw newid i'r trefniadau presennol. O ran Premi
Cyngor, cynigir bod y premiwm o 50% ar gyfer eiddo sy'n wag am rhwng 12 a 24

o 100% ar gyfer eiddo sy’n wag am fwy na 24 mis, yn parhau yn unol â’r hyn a gy
nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2023.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, mewn perthynas ag ail gartrefi, y g
Cyngor nodi ac ail-gadarnhau cyflwyno premiwm o 100% ar gyfer eiddo Dosbarth
2024, eto fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2(

Yn dilyn trafodaeth mewn perthynas â'r adroddiad, **PENDERFYNWYD** :

i)Cytuno i barhau ag unrhyw ostyngiad Treth y Cyngor mewn perthynas ag eiddo Dosbarth A, B ac C.

ii) Cytuno i barhad premiwm o 50% ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn wag ers rhwng 12 a 24 mis, a phremiwm o 100% ar gyfer eiddo sy’n wag am fwy na 24 mis; a

iii) Nodi ac ailddatgan cyflwyno premiwm o 100% ar gyfer eiddo Dosbarth B o 1 Ebrill 2024, fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Cyngor ar 18 Ionawr 2023.

## 59 CANLLAW CYFANSODDIAD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ei adroddiad, a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i Ganllaw Cyfansoddiad drafft y Cyngor, fel sy'n ofynnol gan statud (Adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod Adran 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y Ddeddf) yn ei gwneud hi'n ofynnol i brif gynghorau gyhoeddi Canllaw Cyfansoddiad sy'n esbonio cynnwys Cyfansoddiad y Cyngor mewn iaith gyffredin. Rhaid i Brif Gynghorau hefyd gyhoeddi eu Canllawiau Cyfansoddiad a'u Cyfansoddiad yn electronig, a darparu copi ar gais, naill ai am ddim, neu am dâl (dim mwy na chost darparu'r copi).

Eglurodd y Cyfarwyddwr mai bwriad y canllaw gerbron yr Aelodau yw helpu'r cyhoedd i ddeall sut mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau ac yn gweithio i ddarparu gwasanaethau ym mhob rhan o'r fwrdeistref sirol, yn ogystal â rhoi manylion o ran sut mae modd i drigolion lleol gymryd rhan mewn democratiaeth. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at y Canllaw Cyfansoddiad drafft ei hun, a nodir yn Atodiad 1, ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyfansoddiad yn ei gyfarfod ar 5 Mehefin 2023, pan gytunodd yr Aelodau y dylid mabwysiadu'r canllaw.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr y bydd unrhyw anghysondebau o ran rhifau tudalennau yn y copi gerbron yr Aelodau yn cael eu diwygio'n rhan o'r broses cyn cyhoeddi'r Canllaw (er iddo gadarnhau bod y Canllaw yn gywir yn y Ddogfen Word wreiddiol).

Gan fod y Canllaw yn ddogfen sy'n esblygu ac mai dyma'r fersiwn gyntaf, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai unrhyw welliannau posibl megis cynrychioliadau rhyngweithiol, gweledol a graffigol yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor y Cyfansoddiad pan fydd adnoddau'n caniatáu hynny.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo argymhelliad Pwyllgor y

Cyfansoddiad i fabwysiadu'r Canllaw sydd wedi'i atodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

**60 CYNLLUN DEISEBAU**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad er mwyn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau o argymhellion Pwyllgor y Cyfansoddiad mewn perthynas â diwygiadau arfaethedig i gynllun deisebau presennol y Cyngor, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod cynllun Deisebau'r Cyngor wedi bod ar waith cyn y gofyniad statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at adran 4 yr adroddiad, a oedd yn nodi'r gweithdrefnau presennol a fabwysiadwyd gan Bwyllgor Cyfansoddiad y Cyngor yn 2019. Roedd gweithdrefnau o'r fath wedi dangos prosesau'r Cyngor ar ôl i'r cyhoedd a/neu Aelodau gyflwyno deiseb.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth grynodeb o'r gwelliannau a awgrymwyd i gynllun deisebau'r Cyngor yn adran 5 yr adroddiad a fyddai'n gwella'r broses bresennol ac yn ceisio atgyfnerthu'r strategaeth ehangach ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd, sy'n sail i waith y Cyngor. Cyfeiriodd yr Aelodau at faes mwy penodol o fewn y cynllun, sef y bydd y cyhoedd yn gallu cyflwyno e-ddeisebau ar-lein yn y dyfodol. Bydd hyn yn eu galluogi nhw i roi eu barn ar benderfyniadau allweddol. Bydd diwygiad pellach yn cynnwys mecanwaith ar gyfer nodi deiseb, gyda chefnogaeth digon o lofnodwyr, ar agenda'r Cyngor, gan roi cyfle i Aelodau Etholedig ofyn am gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'w ystyried.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth bod y gwelliant mwyaf arwyddocaol yn gofyn am unrhyw ddeiseb gyda mwy na 1,000 o lofnodion i fod yn weladwy ar wefan y Cyngor, ac yn galw am roi'r cyfle i'r Aelod lleol, ar ran ei drigolion, ofyn i'r Pwyllgor Craffu drafod yr eitem gyda chefnogaeth y Cyngor Llawn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth bod gofyn hefyd i'r Cyngor gymeradwyo'r gwaith o lunio llyfryn canllaw manwl gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn rhan o'r datblygiadau arfaethedig.

Wrth gyflwyno ei adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y mecanwaith o gyfeirio materion at bwyllgor arall o'r Cyngor a'r defnydd o e-ddeisebau, a fabwysiadwyd eisoes gan awdurdodau lleol eraill, wedi'u cynnig er mwyn osgoi'r angen i greu baich gweinyddol ychwanegol ar y Cyngor trwy greu strwythur pwyllgor ychwanegol arall, tra'n cynnal yr un bwriad.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r dull gweithredu mewn haenau, a'r galw am gyfeirio at ddeisebau unig ar agenda'r Cyngor, soniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y swm sylweddol o fusnes mae'r Cyngor Llawn eisoes yn ei drafod bob mis a phwysigrwydd cadw cydbwysedd yn hyn o beth.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

i) Cymeradwyo diwygiadau arfaethedig Pwyllgor y Cyfansoddiad i gynllun deisebau presennol y Cyngor fel y nodir yn adran 5 o'r adroddiad, a chytuno i'r diwygiadau arfaethedig;

ii) Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i ddiwygio'r cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau yma;

iii) Cymeradwyo datblygu 'llyfryn canllaw' ynglŷn â'r cynllun deisebau er mwyn helpu'r cyhoedd i fwrw ymlaen â chyflwyno deiseb. Bydd y llyfryn yn cael ei ddatblygu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

**61 STRATEGAETH CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Strategaeth ddrafft Cyfranogiad y Cyhoedd Rhondda Cynon Taf, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Cadarnhaodd fod y Strategaeth Ddrafft wedi cael ei chyflwyno a'i thrafod gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor ar 24 Mai 2023 a thrwy ymgynghoriad cyhoeddus.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at adran 4 o'r adroddiad, ac yn benodol 4.3, a oedd yn nodi'r chwe maes penodol y mae'n ofynnol i'r strategaeth ymdrin â nhw yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, dydy'r rhain ddim o reidrwydd yn ymwneud â dulliau cyfranogiad cyffredinol y cyhoedd. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi bod yn rhagweithiol yn nifer o'r meysydd, megis annog aelodau’r gymuned i sefyll mewn etholiad cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022, a gwella ymgysylltiad y cyhoedd â phrosesau craffu a democrataidd y Cyngor. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor wedi gwneud gwelliannau i Siambr y Cyngor fel bod modd darlledu pwyllgorau'r Cyngor yn fyw.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, gan fod y ddogfen yn ddogfen sydd ar gael i'r cyhoedd, gyda'r nod o hwyluso gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd, bod y Cyngor wedi ceisio Cyngor gwell gan y cyhoedd ynghylch swyddogaethau allweddol y Cyngor fel prosesau craffu, y Cyngor a'r Cabinet. Llwyddodd hyn y gadarnhau bod dulliau'r Cyngor yn rhai o'r dulliau mwyaf hyblyg yng Nghymru o ran y cyfleoedd sydd ar gael i'r cyhoedd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod adran 8 yr adroddiad yn amlygu y bydd y ddogfen fyw yn cael ei diweddaru a gwelliannau'n cael eu gwneud a'u hadolygu gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

i) Ar ôl i'r Aelodau drafod y strategaeth ddrafft a'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, eu bod nhw'n cytuno ar y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus ddrafft sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yr adroddiad;

ii) Bod y Strategaeth a'r canllawiau perthnasol ar gael i'r cyhoedd, yn dilyn fformatio'r ddogfennaeth yn briodol;

iii) Bod gwaith monitro ac adolygu'r Strategaeth yn cael ei gyflawni gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd.

(**Nodwch:** Cynigiwyd y ffurf ganlynol o eiriad i’r argymhelliad cyntaf,

nas cefnogwyd gan fwyafrif yr Aelodau, gan y Cynghorydd C Lisles ac eiliwyd gan y Cynghorydd S Trask)

*i) Ar ôl i'r Aelodau drafod y strategaeth ddrafft a'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, eu bod nhw'n cytuno ar y Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus ddrafft sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yr adroddiad, yn amodol ar ddileu paragraff 4 ar dudalen 123;*

**62 Cydbwysedd Gwleidyddol**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad ar y cyd mewn perthynas â Chydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor a dyraniad y rhybuddion o gynnig ar gyfer gweddill Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr Aelodau at adran 3 yr adroddiad, a oedd yn nodi canlyniad yr adolygiad o gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor a'r seddi oedd ar gael i'w penodi gan y Grwpiau priodol (a nodir yn nhablau A a B yn yr Atodiad i'r adroddiad). Mewn perthynas ag adran 4 o'r adroddiad, sy'n nodi trefniadau penodol mewn perthynas ag aelodaeth bresennol Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd, cynigiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, yn ei rôl fel Pennaeth Statudol y Gwasanaethau Democrataidd, y dylid cynyddu'r aelodaeth o 17 i 21 aelod i sicrhau bod pob grŵp gwleidyddol yn chwarae rhan wrth benderfynu ar faterion yn ymwneud ag adnoddau a chymorth i Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Adain Weithredol (fel y cydnabuwyd gan y Cyngor Llawn yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor yn 2022 a 2023).

I gloi, gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am gyfarwyddyd y Cyngor mewn perthynas â dyrannu'r Rhybuddion o Gynnig ar gyfer gweddill Blwyddyn y Cyngor 2023/24 yn wyneb y newid i gydbwysedd gwleidyddol.

Ar ôl trafod yr adroddiad, lle cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, yn dilyn penodiadau i gyrff gwleidyddol gytbwys, y byddai'r hyfforddiant a'r gefnogaeth briodol yn eu lle ar gyfer yr Aelodau newydd hynny, **PENDERFYNWYD**:

i) Mabwysiadu'r cynllun ar gyfer dyrannu seddi i'r gwahanol gyrff a grwpiau gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gymwys iddo, fel y manylir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma;

ii) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, i benodi i gyrff gwleidyddol cytbwys, ar ôl iddo dderbyn hysbysiad o ddymuniadau'r grŵp gwleidyddol, mewn unrhyw achos o dderbyn ceisiadau dilynol ar gyfer newid i aelodaeth y Pwyllgorau sydd wedi'i gyfeirio at y Cyngor;

iii) Gofyn am gyfarwyddyd y Cyngor mewn perthynas ag argymhelliad Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Statudol i ddiwygio cynrychiolaeth yr Aelodau ar Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor (fel y nodir yn nhabl B);

iv) Bod dyraniad y Rhybuddion o Gynnig ar gyfer gweddill Blwyddyn y Cyngor 2023-2024 fel a ganlyn:

Llafur - 12
Plaid Cymru - 4
Grŵp Annibynnol RhCT - 2
Y Blaid Geidwadol - 1
Grŵp Annibynnol - 1

(Nodwch: Ymatalodd y Cynghorwyr S Trask a K Johnson rhag pleidleisio ar y cynnig yma (cyfeirier at gynnig iv)).

**63 Adroddiad Aelodaeth**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a oedd yn ceisio hysbysu'r Aelodau o'r angen i benodi i swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant am weddill blwyddyn y Cyngor 2023/24.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, yn dilyn hysbysiad bod y Cynghorydd K Webb yn dymuno rhoi'r gorau i'w rôl yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant, mae angen penodi Is-gadeirydd i'r Pwyllgor Craffu ar gyfer gweddill Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, am ystyriaeth i benodi Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant. **PENDERFYNWYD** :

i) Penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Scott Emanuel i rôl Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant;

ii) Awdurdodi Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r aelodaeth, yn dilyn derbyn enwebiadau gan y grŵp gwleidyddol priodol.

**64 AIL-BENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd yr adroddiad, a oedd yn gofyn i'r Cyngor ystyried ailbenodi Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau am dymor pellach.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr gyfnod swydd un o'r Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, sef Mr. John Thomas, sy'n dod i ben ar 30 Tachwedd 2023. Ychwanegodd fod Mr. Thomas, yn ystod ei gyfnod yn y swydd, wedi meithrin cryn brofiad ac er mwyn cynnal parhad ar y Pwyllgor Safonau, mae Mr. Thomas wedi cytuno, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor, i ymestyn ei gyfnod yn y swydd am gyfnod pellach o bedair blynedd.

Ar ôl ystyried yr adroddiad roedd **PENDERFYNWYD** ailbenodi Mr. John Thomas yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd o 1 Rhagfyr 2023.

**65 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022–23**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23, a rhoddodd grynodeb i'r Cyngor o'r gwaith a wneir gan y Pwyllgor Safonau drwy gydol Blwyddyn y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod y cyflawniadau a restrwyd yn yr Adroddiad Blynyddol yn adlewyrchu'r nifer helaeth o faterion a drafodwyd gan y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf. Rhoddir enghreifftiau penodol o sut mae'r Pwyllgor Safonau wedi gweithio i barhau i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel o fewn y Cyngor.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd mai cyfrifoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Safonau fel arfer fyddai cyflwyno ei adroddiad, ond nid oedd modd iddo ddod i gyfarfod y Cyngor. Serch hynny, roedd yn dymuno canmol holl Aelodau'r Awdurdod Lleol am barhau i gadw at safonau ymddygiad uchel a chwblhau'r hyfforddiant Cod Ymddygiad yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol a'r isetholiadau. Croesawodd hefyd unrhyw gwestiynau gan Aelodau mewn perthynas â'r adroddiad blynyddol neu unrhyw fater arall yn rhinwedd ie swydd yn Gadeirydd y Pwyllgor, byddai modd cyfeirio'r rhain ato drwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd.

**PENDERFYNWYD** nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau, (ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad).

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.35 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**